

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 9fed Ionawr, 2023 drwy gyfrwng Zoom

Presenol: Steve (SW),(Cadeirydd) Iolo Roberts (IPR),Raymond (RG), Iolo ap Gwynn (IAG),Dewi (DH), Richard (RR), Keith (KR), Dwynwen (DP), Elen (EH), Ariannell (AP), Gethin (GR)

Ymddiheuriadau: Dilys, Sioned

1.	<u>CROESO</u>	<p>Croesawodd SW Ariannell a Gethin , aelodau newydd y Pwyllgor i'w cyfarfod cyntaf a diolchodd i Eryl a Iona oedd wedi sefyll i lawr fel aelodau yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Rhagfyr am eu gwasanaeth.</p>	
2.	<u>COFNODION</u>	<p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12fed Medi, 2022 fel rhai cywir</p>	
3.	<u>MATERION ARIANNOL</u>	<p>Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol</p> <p>Adroddodd</p> <ul style="list-style-type: none">• bod 181 o aelodau wedi ailymuno hyd yma a thalu £25, 77 wedi talu £20 sef y ffi flaenorol a 36 wedi talu symiau llai na £20. Roedd 29 heb dalu neu ymateb mewn unrhyw ffordd a 6 wedi penderfynu terfynu eu haelodaeth. Cafodd pawb o'r 77 dalodd £20 a'r 29 heb ymateb o gwbl neges atgoffa ac roedd y sefyllfa'n newid o awr i awr!• Cyn i'r taliadau aelodaeth ddechrau cyrraedd roedd gan y Clwb oddeutu £4000 yn y banc. Byddai gwell syniad o'r sefyllfa ariannol erbyn pwyllgor Mai pan fydd yn gliriach faint sydd wedi penderfynu talu tâl aelodaeth llawn ac y bydd taliadau i'r CMP wedi eu gwneud• ei bod yn dal ei gafael ar £881.41 o arian er cof am Gareth Pierce. Bydd angen penderfynu sut a pha bryd i'w wario ond does dim brys am hynny ar hyn o bryd.• bod cyfrifon 2021-22 ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr (sef cyfuniad o adroddiadau'r swyddogion i'r cyfarfod blynyddol) wedi eu ffeilio hefo'r Comisiwn Elusennau. Roedd yn y broses o gofrestru'r newidiadau i'r ymddiriedolwyr/pwyllgor. <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth</p>	
4.	<u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2022</u>	<p>Adroddodd IPR y codwyd y materion a nodir isod gan aelodau yn y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar nos Sadwrn 19eg Tachwedd, 2022 yng Ngwesty'r Royal Oak ym Metws y Coed a'u bod wedi eu cyfeirio i'w hystyried gan y Pwyllgor:</p> <ul style="list-style-type: none">• awgrym y gellid cynnal y Cyfarfod a Chinio Blynyddol ar noson yn ystod yr	

wythnos e.e nos Wener heb gael taith yn gysylltiedig â'r digwyddiad – gan Gwyn Williams (Llanrwst)

- syniad o gynnal y Cyfarfod Blynyddol mewn safle yn y Canolbarth gyda'r gobaith y gellid denu aelodau o'r de a'r gogledd iddo – gan Mark Williams
- gyrru neges i atgoffa aelodau i gofrestru eu ffonau symudol hefo rhif argyfwng 999 fyddai yn cynorthwyo i gysylltu â'r gwasanaethau brys mewn argyfwng – gan Sian Shakespear

Ar ôl trafod y materion hyn cytunwyd ar y canlynol

i. bod y pwyllgor yn ffafrio parhau i gynnal y Cyfarfod a Chinio Blynyddol ar ddydd Sadwrn gyda thaith yn ystod y dydd yn gysylltiedig a dylid sicrhau fod y daith yn lleol ac yn addas o safbwynt amseru

ii. bod peryg, o gofio bod canran helaeth o aelodau'r Clwb yn byw yng Ngogledd Cymru, y gallai symud y Cyfarfod Blynyddol i leoliad yng Nghanolbarth Cymru olygu na fyddai canran sylweddol yn mynychu ac nad oedd digon o aelodau yn byw yn y de i wneud fyny am y diffyg yma. Fodd bynnag gellid ystyried yn y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor gynnal y Cyfarfod Blynyddol yn rhan ddeheuol Gogledd Cymru megis ardal Dolgellau a allai fod rhywfaint yn fwy cyfleus i aelodau'r de.

iii. gofyn i RR gynnwys neges am gofrestru ffonau symudol gyda rhif argyfwng 999 yn un o'i negeseuon e-bost i'r aelodau.

5. **CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB**

Croesawodd SW Richard i'w gyfarfod cyntaf fel Ysgrifennydd Gweithgareddau a diolchodd iddo am ei barodrwydd i ymgymryd â swydd hollol allweddol i lwyddiant y Clwb.

Adroddodd RR ar y materion canlynol:

- bod y rhaglen weithgareddau am y cyfnod hyd at ddiwedd Ebrill 2023 yn barod ac yn cynnwys 15 o deithiau gyda 3 ohonynt yn y de. Croesawodd y ffaith fod 3 taith yn deithiau cyntaf i arweinwyr newydd fod yn gyfrifol amdanynt sef Dafydd Thomas, Gethin Rowlands a Dylan Evans.
- Byddai'n edrych am lunio rhaglen am y cyfnod o mis Mai ymlaen a gofynnodd am farn y Pwyllgor am y syniad o gynnal taith flasu i ddarparu aelodau newydd, rhywbeth roedd y Clwb wedi ei wneud yn y gorffennol.
- Hefyd byddai'n trefnu Taith Goffa Gareth Pierce yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym mis Awst

Cytunwyd

i. nodi'r wybodaeth ac ategu diolch SW i Richard am lenwi'r bwlch fel Ysgrifennydd Gweithgareddau newydd y Clwb a dymuno'n dda iddo.

ii. cytuno â'r awgrym i gael taith flasu ym mis Mai a nodi y gellid ei chynnal ar ddydd Llun Calan Mai neu dydd Llun Gŵyl Banc y coroni, pa 'run bynnag fyddai hwylusaf

iii. gofyn i IPR arwain Taith Goffa Gareth Pierce tros dri chopa'r Eifl eleni.

<p>6.</p>	<p><u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2023</u></p> <p>Adroddodd DP</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod Catrin Parry wedi cytuno i draddodi Darlith Goffa Llew Gwent eleni am ei hamryw anturiaethau dros y blynyddoedd • bod angen archebu slot ym Mhabell y Cymdeithasau yn fuan wedi iddynt gael eu rhyddhau gan yr Eisteddfod gan eu bod yn cael eu llenwi yn gyflym • roedd y drefn o hysbysebu'r ddarlith drwy dulliau electroneg yn unig wedi gweithio'n dda y llynedd yn Nhregaron • yn sgil llwyddiant y ddarlith y llynedd gyda'r babell yn orlawn codwyd yn y cyfarfod diwethaf y posibilrwydd o'i chynnal mewn safle mwy. <p>Cytunwyd</p> <p>i. diolch i Catrin am ei pharodrwydd i draddodi'r ddarlith eleni a diolch i DP am drefnu</p> <p>ii. cytuno i hysbysebu'r ddarlith drwy dulliau electroneg yn unig eto eleni a nodi y bydd SW yn cynorthwyo os bydd angen</p> <p>iii. gofyn i DP, pan yn cysylltu â'r Eisteddfod i archebu lle, i holi os y byddai'r ddarlithfa yn y Babell Wyddoniaeth yn addas ond nodi hefyd mewn lleoliad rhyfwrdd y gallai'r awyrgylch fod yn oeraidd ac yn frawychus i ddarpar siaradwyr.</p>	
<p>7.</p>	<p><u>CEISIADAU I DDOSBARTHU NEGESUON I AELODAU'R CLWB</u></p> <p>Ystyriwyd yr angen am drefn/ canllawiau i ddelio â cheisiadau i ddsbarthu negeseuon i aelodau.</p> <p>Cytunwyd oni bai bod unrhyw neges yn cyd fynd ag amcanion y Clwb i hyrwyddo mynydda drwy gyfrwng y Gymraeg y dylai ymateb i geisiadau drwy nodi y gellid rhoi negesuon ar dudalen gweplyfr y Clwb.</p>	
<p>8.</p>	<p><u>MATERION CMP</u></p> <p>Adroddodd SW na fyddai cyfarfod lleol nesaf y CMP ddim tan 23ain Ionawr ac felly nid oedd ganddo lawer i'w adrodd.</p> <p>Nododd fod y cyn swyddog Elfyn Jones yn dal i wneud dipyn hefo'r CMP ac iddo fod yn gweld gwaith a wnaed gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar lwybr yn Cwm Cywarch. Roedd y corff "Mend our Mountains" a oedd yn ariannu cynlluniau o'r fath wedi datgan bod yn rhaid i APCE gael trefn o ymgynghori ar unrhyw waith y bwriedir ei wneud yn y dyfodol er mwyn derbyn cymorth. Yn sgil hyn roedd proses o ymgynghori rhwng y CMP a APCE wedi datblygu a oedd yn rhywbeth i'w groesawu.</p> <p>Diolchwyd i SW am y wybodaeth.</p>	
<p>9.</p>	<p><u>MATERION Y BARTNERIAETH AWYR AGORED</u></p>	

	<p>Adroddodd RG gyda'r drefn newydd a gyflwynwyd gan y Bartneriaeth ar gyfer cyrsiau hyfforddiant roedd disgwyl i unigolion adnabod cyrsiau perthnasol yr hoffent eu mynychu a gwneud cais i'r BAA drwyddo ef. Roedd uchafswm o £500 o gymorth ar gael mewn blwyddyn. Hyd yma dim ond un aelod oedd wedi datgan diddordeb mewn mynychu cwrs.</p> <p>Cytunwyd gofyn i RR atgoffa aelodau yn un o'i negeseuon e-byst ei bod yn bosibl iddynt fynychu cyrsiau perthnasol gyda chymorth gan y BAA a gofyn iddynt gysylltu â RG os â diddordeb.</p>	
<p>10</p>	<p><u>TAITH BRESWYL</u></p> <p>Adroddodd KR ei fod wedi ystyried cynnig taith i ardal Swydd Efrog er mwyn gwneud Taith y Tri Chopa. Fodd bynnag roedd yn ymwybodol fod Gwyn Williams (Llanrwst) wedi trefnu wythnosau preswyl yn ardal Hawes yn Swydd Efrog yn y gorffennol ac nad oedd eisiau gwneud dim ar draul gweithgareddau sy'n eu lle eisoes.</p> <p>Cytunwyd cefnogi'r awgrym a gofyn i KR gael gair gyda Gwyn i weld beth oedd ei gynlluniau ar gyfer eleni.</p>	
<p>11</p>	<p><u>DIGWYDDIADAU AR DEITHIAU</u></p> <p>Cyfeiriodd DH at ddigwyddiad ar daith yn ardal Crughywel ym mis Rhagfyr lle y cafodd aelod anaf ar ôl llithro ar rew a bu'n rhaid iddi fynd i'r ysbyty i gael triniaeth i'w harddwrn yn ddiweddarach yn ystod y dydd. Gofynnodd a oedd angen hysbysu/cofnodi'r digwyddiad mewn unrhyw ffordd.</p> <p>Adroddodd IPR ei fod yn gyrru adroddiad am ddigwyddiadau difrifol i'r CMP a'u cwmni yswiriant.</p> <p>Cyfeiriodd DP at dudalen a oedd wedi ei sefydlu ar wefan y CMP er mwyn cofnodi digwyddiadau a allai o bosib fod yn ffordd o gofnodi digwyddiadau o'r fath bellach.</p> <p>Cytunwyd gofyn i IPR sefydlu beth yn union oedd y disgwyliad ar glybiau i gofnodi digwyddiadau gyda'r CMP/Yswirwyr bellach a chysylltu wedyn hefo DH yn ôl yr angen.</p>	
<p>12.</p>	<p><u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd</p> <p>i. y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 8pm, nos Fawrth 16fed o Fai, 2023,</p> <p>ii. gofyn i SW edrych i fewn i'r posibilrwydd o gynnal y cyfarfod drwy gyfrwng "Microsoft Teams" neu "Skype" os yn addas fel arbrawf.</p>	